

Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	23 Chwefror 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Julian Thompson-Hill
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Cynllun Cyfalaf 2020/21 - 2023/24 ac Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar elfen 2020/21 y Cynllun Cyfalaf. Hefyd ynghlwm mae argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol o gynigion Cyfalaf a argymhellir ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu Cynllun Cyfalaf diwygiedig i'r aelodau gan gynnwys diweddariad ar brosiectau mawr a'r cynllun corfforaethol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys Adroddiad y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020/2021 sy'n darparu trosolwg cryno a chynhwysfawr i aelodau o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Atodiadau canlynol wedi'u cynnwys:

- Atodiad 1: Crynodeb o gyllid y cynllun cyfalaf
- Atodiad 2: Crynodeb o'r cynllun cyfalaf fesul gwasanaeth
- Atodiad 3: Manylion amcangyfrifon y cynllun
- Atodiad 4: Diweddariad ar brosiectau cyfalaf mawr
- Atodiad 5: Manylion argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol
- Atodiad 6: Cynigion Cyfalaf a argymhellir i'w cymeradwyo
- Atodiad 7: Adroddiad y Strategaeth Gyfalaf
- Atodiad 8 – 15: Adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer pob prosiect y mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn eu hystyried

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Nodi sefyllfa ddiweddaraf elfen 2020/21 y Cynllun Cyfalaf a'r diweddariad ynghylch y prosiectau mawr.
- 3.2 Cefnogi argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y nodir yn Atodiad 5 ac a grynhoir yn Atodiad 6.
- 3.3 Cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2021/22.
- 3.4 Cymeradwyo Adroddiad Strategaeth Cyfalaf 2021/22 fel y manylir yn Atodiad 7.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Gwariant Cyfalaf 2020/21

Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf ar y Cynllun Cyfalaf llawn i'r Cyngor fis Chwefror 2020, ond mae'r Cabinet wedi derbyn diweddariadau misol. Mae'r Cynllun Cyfalaf Amcangyfrifedig bellach yn £42.36 miliwn. Mae'r cynllun wedi'i ddiweddarau ers adrodd arno i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2021.

4.2 Prosiectau Mawr

Mae Atodiad 4 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau canlynol:

- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Llanfair
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Penbarras
- Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgol Crist y Gair, y Rhyl
- Ailddatblygu Marchnad y Frenhines, y Rhyl
- Ail-fodelu Gwasanaethau Gwastraff Newydd
- Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl

4.3 Cynllun Corfforaethol

Ar 17 Hydref 2017 cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol 2017-2022. Mae'n nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y tymor presennol. Cost amcangyfrifedig y cynllun gwreiddiol oedd £135 miliwn, ond mae hwn wedi newid wrth i ni ddatblygu cynigion.

Ar 23 Ionawr 2018 cadarnhaodd y Cabinet ei ymrwymiad ariannol i ddarparu Band B. Fodd bynnag ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i gyfraddau ymyrraeth grantiau. Ar gyfer Band A, roedd y gyfradd ymyrraeth yn 50% o Grant Llywodraeth Cymru. Ar gyfer Band B bydd cyfraniad Llywodraeth Cymru bellach yn 65%, ar gyfer ysgolion arbennig gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion bydd yn gyfraniad o 75% ac ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr byddai cyfraniad Llywodraeth Cymru yn 85% gyda 15% yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Esgobaeth neu'r Corff Llywodraethu. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r cyfeiriad tebygol ar gyfer Band B ac mae nifer o astudiaethau dichonoldeb wedi cael eu cynnal. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaethau hyn, mae rhaglen ddiwygiedig wedi'i chreu. Fodd bynnag amlygodd hyn yr amcangyfrif uwch nag amlen y rhaglen o £80 miliwn a chyfraniad Llywodraeth Cymru o £45 miliwn. Ar 17 Rhagfyr 2019 cymeradwyodd y Cabinet gyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol ddiwygiedig i Lywodraeth Cymru yn ceisio cyllid ychwanegol.

Mae trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi arwain ar ystyried darparu'r rhaglen fesul dau gam. Ar 22 Medi 2020 cymeradwyodd y Cabinet ddechrau prosiectau cam un yn Ysgol Plas Brondyffryn/Ysgol Uwchradd Dinbych; Ysgol Bryn Collen/Ysgol Gwernant ac Ysgol Pendref. Hefyd, cytunodd y Cabinet bod y Cyngor yn dal i drafod derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau Cam Dau gyda Llywodraeth Cymru, ac i adolygu'r sefyllfa ymhen 18 mis.

4.4 **Derbyniadau Cyfalaf**

Am ran o'i gyllid mae'r Cynllun Cyfalaf yn dibynnu ar dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir drwy werthu asedau'r Cyngor. Mae'r tabl isod yn dangos y derbyniadau gros a gyflawnwyd yn 2020/21. Yn ogystal â hyn mae nifer o warediadau posibl yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

	2020/21 £000
Castell Bodelwyddan	700
Yr hen gae mulod, y Rhyl	90
Fferm Four Crosses, Glanrafon	515
Fferm Lletty, Llandyrnog	480
Tir yng Ngallt Melyd (adnau)	57

Ysgubor, Ty'n Celyn, Glanrafon	15
Cyfanswm	1,857

4.5 Dangosyddion Darbodus 2020/21

Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn nodi Dangosyddion Darbodus sy'n pennu terfynau darbodus ar ei fenthyca. Mae dyled y Cyngor yn £241.8 miliwn ar hyn o bryd. Mae hyn o fewn y Ffin Weithredol (£265 miliwn) a'r Terfyn Awdurdodedig (£270 miliwn) ac mae'n llai na rhagolwg y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (£296 miliwn). Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn cadw at y Cod Darbodus Cyllid Cyfalaf ac nid yw'n benthyca mwy na'i anghenion cyfalaf.

Mae cymhareb costau ariannu a llif refeniw net ar gyfer 2020/21 yn 6.64%. Mae'r gymhareb hon yn arwydd o fforddiadwyedd ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau refeniw gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy nodi cyfran o'r gyllideb refeniw sydd ei angen i dalu costau benthyca.

4.6 Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol

Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu ceisiadau cyfalaf ac wedi gwneud argymhellion i'w cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf o 2021/22 ymlaen. Manylir ar y rhain yn Atodiad 5 ac fe geir crynodeb yn Atodiad 6.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae prosiectau wedi'u hadolygu i sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Goblygiadau Cost

Mae'n angenrheidiol sicrhau bod y Cynllun Cyfalaf yn cael ei ariannu'n llawn gan fod yn rhaid i unrhyw gost ychwanegol, sy'n fwy na chyfanswm y cyllid sydd ar gael, gael ei hariannu o gyllidebau refeniw.

6.2 Goblygiadau Staffio/TGCh/Gofod Swyddfa

Mae'n ofynnol llenwi ffurflen Achos Busnes ar gyfer pob prosiect newydd a thrafod y goblygiadau penodol yn ystod y cam hwnnw.

6.3 Asesiad o Effaith ar Newid Hinsawdd - Lliniaru ac Addasu

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Bydd pob achos busnes yn dangos, lle bo'n briodol, allyriadau tunelli carbon perthnasol cyn ac ar ôl y prosiect, gan nodi a yw'r prosiect yn cynyddu, lleihau neu ddim yn cael effaith ar allyriadau carbon. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd yn ddiogel ar gyfer y dyfodol ac yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Cwblhawyd Asesiad o Effaith llawn ar gyfer pob cais cyfalaf a adolygwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiadau 8 i 15.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae prosiectau'n cael eu paratoi ac yna'n cael eu monitro mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn yr adroddiadau yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael.

Mae pob aelod wedi cael gwybod am y ceisiadau, ac mae copïau o'r ceisiadau hynny ar gael yn Mod.Gov.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni ddylai unrhyw brosiect ddechrau nes iddo dderbyn cyllid llawn yn erbyn cynllun prosiect cadarn a chael ei drafod gyda'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

Mae angen i Noddwyr Prosiectau arfer rheolaeth dynn dros eu gwariant cyfalaf i sicrhau bod y prosiectau'n gallu aros o fewn cyllidebau.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae risgiau posibl yn cynnwys methu â bwrw ymlaen â chynlluniau, colli grantiau ac amhariadau ar wasanaethau. Byddai cyflwr asedau yn parhau i ddirywio pe na bai unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud, a gallai hynny arwain at golli gwasanaethau pwysig.

10.2 Nid oes unrhyw brosiect cyfalaf heb risg. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn adolygu'r holl gynlluniau ac maent hefyd yn destun gwaith monitro ac adroddiadau misol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol (1972), gofynnir i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.